Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Trivallis – L143

Gorffennaf 2019

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â’u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi’r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78964-842-3
Hawlfraint y Goron 2019

# Proffil

Sefydlwyd Trivallis ("y Grŵp") ar ôl i stoc dai gael ei throsglwyddo o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ym mis Rhagfyr 2007. Mae'r Grŵp yn berchen ar 10,221 o gartrefi ar 60 o ystadau tai, sy'n eiddo anghenion cyffredinol yn bennaf ond sy'n cynnwys 22 o gynlluniau gwarchod. Yn ogystal, mae'r Grŵp yn gyfrifol am ychydig dros 642 o eiddo ar les. Mae'r Grŵp yn Fodel Cydfuddiannol Cymunedol gyda dros 1,100 o aelodau. Mae wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 gyda rheolau elusennol.

Mae gan y Grŵp nifer o is-gwmnïau anghofrestredig – Porthcwlis, Porthcwlis Homes a Bellerophon Project 1 LLP.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | | **2017/18** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 11.1% | 15.8% | dd/g | 20.1% |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 6.9% | 9.6% | dd/g | 8.1% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 4.1% | 3.6% | dd/g | 2.1% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 52% | 54% | dd/g | 75% |
| Benthyciadau'r Grŵp £ miliwn | 68.3 | 65 | 118.3* | dd/g |
| Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Grŵp gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi.<br><br>*Ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaeth y Grŵp leihau ei gyfleuster benthyca fel rhan o ailddatgan y gytuneb fenthyca wreiddiol. Mae gan y Grŵp gyfleusterau benthyca o £85.3m yn dilyn y newid hwn. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Gorffennaf 2019

**Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.